Edrych ar glyw eich babi

Llyfryn hawdd ei ddarllen am brofion sgrinio eich babi newydd

Yn y llyfryn yma

- Eich dewis
- Am y profion yma
- Y math cyntaf o brawf
- Yr ail fath o brawf
- Canlyniadau'r prawf

Eich dewis

Mae gwybodaeth yn y llyfryn yma am y profion sydd ar gael i'ch babi.

Mae'r profion yn ffordd o ddod i wybod oes problem bosib gyda chlyw eich babi. Mae'n bwysig bod babanod yn clywed yn dda fel y gallan nhw ddysgu i siarad. Mae'r profion yma'n gallu dod o hyd i broblemau'n gynnar. Efallai fyddan nhw ddim yn dod o hyd i bob problem.

Os byddwn ni'n dod o hyd i broblem yn gynnar gallwn ni helpu eich babi.

Chi fydd yn dewis ydych chi eisiau i'ch babi gael y profion yma neu beidio. Rydych chi'n rhydd i wrthod unrhyw un. Os nad ydych chi eisiau i'ch babi gael y profion yma, byddwn ni'n rhoi rhestr i chi o bethau i'w gwirio wrth i'ch babi dyfu.

Mae croeso i chi siarad gyda'ch bydwraig neu feddyg os ydych chi'n poeni. Gallan nhw eich helpu i benderfynu ydych chi eisiau i'ch babi gael y profion yma.

Am y profion yma

Fyddwn ni ddim yn dangos canlyniadau'r profion i neb heblaw am staff iechyd sydd angen eu gweld nhw.

Mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth eich bydwraig neu ymwelydd iechyd am unrhyw broblemau iechyd sydd gennych chi a thad y babi. Efallai fod yr un problemau'n effeithio ar eich babi.

Mae'r profion yma'n gwirio pa mor dda mae'ch babi'n clywed. Ychydig iawn o fabanod sydd â phroblemau clywed. Os byddwn ni'n dod o hyd i broblem yn gynnar gallwn ni helpu eich babi i glywed a siarad.

Nid yw'r profion yn achosi unrhyw boen i'r babi.

Efallai bydd eich babi'n cael y profion o'i glyw yn yr ysbyty cyn i chi fynd adref. Neu efallai byddwch chi'n cael cais i fynd i glinig i gael y profion ar ôl i chi fynd adref.

Y math cyntaf o brawf

Mae angen ychydig o funudau i wneud y prawf.

Bydd y staff yn rhoi teclyn meddal yng nghlust eich babi. Mae'r teclyn yn debyg i glustffon. Mae'r teclyn yn chwarae sŵn clicio ysgafn. Mae peiriant yn gallu gwirio ydi'ch babi'n clywed y clicio neu beidio.

Ambell waith nid yw'r prawf cyntaf yma'n gweithio'n dda. Nid yw hyn yn golygu bod problem gyda chlyw eich babi. Efallai nad oedd eich babi'n gorwedd yn llonydd. Efallai fod sŵn arall yn yr ystafell.

Efallai fod ychydig o hylif yng nghlust eich babi oedd yn cau'r sŵn allan. Mae hyn yn gyffredin iawn mewn babanod newydd ac mae'r hylif yn clirio mewn amser.

Yr ail fath o brawf

1. Mae byddwn ni eisiau gwneud prawf arall. Mae angen mwy o amser i wneud yr ail brawf. Mae'n cymryd rhwng 5 a 15 munud. Mae 3 cam i'r prawf.

2. Rydyn ni'n rhoi 3 pad bach ar ben a gwddf eich babi.

3. Rydyn ni'n rhoi clustffonau meddal dros glustiau'ch babi.

4. Mae'r clustffonau'n chwarae sŵn clicio ysgafn.

Bydd babi oedd angen gofal arbennig am dros 2 ddiwrnod yn cael y prawf yma.

Canlyniadau'r prawf

Byddwn ni'n rhoi'r canlyniadau i chi ar unwaith. Ni fydd problem gyda chlyw'r mwyafrif o fabanod.

Weithiau mae problemau gyda'r clyw'n dod i'r amlwg wrth i'ch babi dyfu. Siaradwch gyda'ch ymwelydd iechyd neu feddyg os ydych chi'n poeni o gwbl am glyw eich babi.

Os bydd y profion yn dangos bod problem bosib ar glyw eich babi, byddwn ni'n cyfeirio'r babi at arbenigwr clyw (awdiolegydd). Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n cadw'r apwyntiadau yma.

Nid yw cael eich cyfeirio at arbenigwr yn golygu bod problem gyda chlyw eich babi, ond fod problem yn fwy tebygol. Bydd yr arbenigwr clyw'n gweld eich babi cyn pen 4 wythnos. Bydd babi oedd yn cael gofal arbennig yn cael ei weld cyn pen 8 wythnos.

Byddwch chi'n cael llyfr coch lle byddwch chi'n cofnodi profion iechyd eich babi. Cadwch y llyfr coch yn saff. Ewch â'r llyfr coch gyda chi pan rydych chi'n gweld unrhyw un i siarad am iechyd eich babi. Mae'r llyfr coch yn disgrifio sut mae gwirio clyw eich babi. Mae'n bwysig eich bod chi'n gwirio clyw eich babi wrth iddo dyfu.

Os byddwch chi'n symud tŷ mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth eich bydwraig neu ymwelydd iechyd.

Defnyddio eich gwybodaeth

Er mwyn i ni gysylltu â chi fel rhan o'r rhaglen, bydd angen i ni drin a thrafod gwybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch babi. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch chi am hyn, gallwch:

- edrych ar y wefan: publichealthwales.org/privacy;
- anfon e-bost i: PHW.InformationGovernance@wales.nhs.uk; neu
- ffonio: 02920 104307.

Rydym hefyd yn cadw manylion personol eich babi i wneud yn siŵr bod safon ein gwasanaeth mor uchel â phosibl. Mae hyn yn cynnwys edrych ar gofnodion eich babi os canfyddir bod colled clyw ar eich babi ar ôl iddo gael canlyniad normal mewn prawf sgrinio.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan yn www.sgrinioclywbabanod.cymru.nhs.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu os hoffech wneud sylwadau neu awgrymiadau am raglen Sgrinio Clyw Babanod Cymru, anfonwch e-bost drwy ein gwefan neu ffoniwch ni ar un o'r rhifau ffôn sy'n dilyn.

Gogledd Cymru: 01978 727005
Canolbarth a Gorllewin Cymru: 01792 343364
De-ddwyrain Cymru: 02921 843568

Os oes gennych unrhyw bryderon, ysgrifennwch at:
Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sgrinio
4ydd Llawr, 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi.

© Hawlfraint y Goron 2020. Datblygwyd y wybodaeth yn wreiddiol gan Raglen Sgrinio Iechyd y Cyhoedd yn Lloegr (https://www.gov.uk/topic/population-screening-programmes) ac mae'n cael ei defnyddio dan fersiwn 3.0 o Drwydded y Llywodraeth Agored.

Fersiwn 2
Ebrill 2020